Annwyl

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein capel ni wedi bod yn codi arian a chasglu bwyd ar gyfer ein Banc Bwyd lleol. Mae ein haelodau'n pryderu am fod cymaint o gynnydd yn y galw am yr elusen hon a rhai eraill tebyg, a bu cryn drafod ar hyn. Rydym wedi dod i'r casgliad fod y cwtogi diweddar ar fudd - daliadau ac ad-drefnu'r sustem Lles, ynghyd ag isafswm cyflog hollol afreal, wedi effeithio'n drychinebus ar rai o bobl mwyaf bregus ein cymdeithas, yn enwedig pobl anabl a rhieni ar gyflogau isel. Ni all - ac ni ddylai - y Llywodraeth ddibynnu ar roddion elusennol i lenwi'r bwlch.

Tra'n bod ni'n derbyn bod y dirwasgiad (nad yw'n ganlyniad gweithredoedd y rhai sy bellach yn dioddef ei ganlyniadau) yn gorfodi cwtogi, mae'n amlwg bod y tlotaf yn y gymdeithas o fewn dim i newynnu tra bo'r cyfoethog yn dal i ffynnu. A ninnau'n gymuned Gristnogol, fe deimlwn ni yn y Tabernacl, Efail Isaf, fod y fath sefyllfa yn hollol groes i ddysgeidiaeth mwyaf sylfaenol Iesu Grist a galwn ar y Llywodraeth i ail-ystyried ei gweithredoedd a chywiro'r cam hwn.

Mae ymdeimlad o ddiymadferthedd yn ein cymunedau ac ni allwn ni yn yr eglwysi anwybyddu cri'r tlawd. Bernir pa mor waraidd a dyngarol yw cymdeithas yn ôl ei gofal o'r aelodau mwyaf bregus. Mae gweld diffyg y gofal hwn yn adrannau Llywodraeth San Steffan yn peri i ni anobeithio.

Galwn arnoch i weithredu rhag blaen i unioni'r newidiadau byrbwyll, difaol diweddar hyn i'r drefn ariannu Lles.

Yn gywir

John Llywelyn Thomas

(Cadeirydd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol, Eglwys y Tabernacl)